

# MYFYRIO A RHANNU

Ystod oedran: 11-16 oed

<p><b>Amlinelliad</b></p> <p>Bydd y dysgwyr yn myfyrio ac yn gwerthuso'r hyn maent wedi'i ddysgu a'u dealltwriaeth o achosion a chanlyniadau tlodi ac anghydraddoldeb. Byddant yna'n ystyried sut allai llywodraethau helpu i sicrhau bod y byd yn lle mwy teg a chyfiawn heb unrhyw dlodi. Yn olaf, byddant yn gweithio mewn grwpiau i drafod, dewis, cynllunio a chynnal gweithgaredd er mwyn rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu gyda phobl eraill.</p>	
<p><b>Amcanion dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried sut y gall llywodraethau helpu i sicrhau bod y byd yn lle mwy teg.</li> <li>• Cyfiawnhau rhesymau dros safbwyntiau.</li> <li>• Gwerthuso dysgu a dealltwriaeth am lesiant ac anghydraddoldeb.</li> <li>• Cydweithio'n effeithiol gyda phobl eraill er mwyn dewis, cynllunio a chynnal gweithgareddau.</li> </ul>	<p><b>Deilliannau dysgu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yna'n cyfiawnhau eu barn ynghylch sut y gall llywodraethau weithredu er mwyn gwneud y byd yn lle mwy teg.</li> <li>• Bydd y dysgwyr yn defnyddio olwyn werthuso er mwyn gwerthuso dysgu am achosion a chanlyniadau tlodi ac anghydraddoldeb.</li> <li>• Bydd y dysgwyr yn cydweithio gyda phobl eraill er mwyn dewis, cynllunio a chynnal gweithgaredd er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghydraddoldeb ymysg y gymuned ehangach.</li> </ul>
<p><b>Cwestiynau allweddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut y gall llywodraethau wneud y byd yn lle mwy teg?</li> <li>• Pa feysydd dysgu rydym fwyaf hyderus yn eu cylch?</li> <li>• Pa feysydd dysgu rydym leiaf hyderus yn eu cylch?</li> <li>• Yn eich barn chi, beth yw'r peth pwysicach rydych wedi'i ddysgu?</li> <li>• Pa weithgareddau oedd fwyaf diddorol a pham?</li> <li>• Beth hoffwn i ddysgu mwy amdano?</li> <li>• Sut y gallaf rannu'r hyn rwyf wedi'i ddysgu gyda phobl eraill?</li> </ul>	<p><b>Adnoddau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Taflen adnoddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Sut y gallwn wneud y byd yn lle mwy teg?</i></li> </ul> </li> <li>• Taflenni gweithgareddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Olwyn werthuso</i></li> <li>○ <i>Rhannu ein dysgu â phobl eraill</i></li> <li>○ <i>Fy nhaith ddysgu (dewisol)</i></li> </ul> </li> </ul>

Noder:

- Bydd yn ddefnyddiol i'r dysgwyr gyfeirio at eu taflenni cofnodi *Fy Nghaith Ddysgu yn y sesiwn hon* (mae'r daflen hon i'w gweld yn y Trosolwg i Athrawon).

### Gweithgaredd 1.1 (20 munud)

*Beth y gallwn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb eithafol?*

- Argraffwch *Sut y gallwn wneud y byd yn lle mwy teg?* mewn print mwy a thorri'r pedwar blwch yn barod i'w harddangos mewn pedair cornel o'r ystafell ddosbarth, ond peidiwch â'u harddangos eto.
- Rhowch ddau nodyn gludiog i barau o ddysgwyr. Mewn parau, gofynnwch iddynt feddwl am ffyrdd y maent yn credu y gall llywodraethau o bob gwlad weithredu i wneud y byd yn lle mwy teg. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi eu syniad gorau o ran sut y gall llywodraethau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y wlad ar un nodyn gludiog a'u syniad gorau ar gyfer sut y gall llywodraethau fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng gwledydd ar y llall. Os oes gennych amser, yna gallwch ofyn i bob pâr rannu eu syniadau gyda phâr arall neu ddewis dysgwyr i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.
- Arddangoswch bedwar blwch *Sut y gallwn wneud y byd yn lle mwy teg?* ym mhob un o bedair cornel yr ystafell ddosbarth fel y gall pawb eu gweld.
- Eglurwch i'r dysgwyr fod y rhain yn disgrifio tair ffordd y mae Oxfam yn credu y gallwn greu byd sy'n fwy teg, yn fwy cyfiawn a chyda llai o dlodi. Darllenwch atebion Oxfam, gan wirio'n gyflym fod pawb yn deall ystyr pob pwynt. Pwysleisiwch wrth y dysgwyr fod y rhain yn dangos safbwynt Oxfam o ran y ffyrdd y gall llywodraethau o bob gwlad weithredu i leihau anghydraddoldeb. Efallai y bydd gan bobl, sefydliadau a sefydliadau eraill farn a syniadau gwahanol.
- Nawr gofynnwch i'r dysgwyr symud, heb siarad, i gornel yr ystafell ddosbarth y maen nhw'n meddwl sy'n dangos y ffordd orau o wneud y byd yn lle mwy teg. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn dewis sefyll yn y gornel 'Ein syniadau ein hunain' ac ychwanegu eu nodiadau gludiog at yr arwydd. Os ydych yn credu y bydd gennych grŵp mawr o ddysgwyr yn sefyll yn y gornel ar gyfer eu syniadau eu hunain, efallai yr hoffech greu ail arwydd 'Ein syniadau ein hunain' neu ofyn i'r dysgwyr greu arwyddion o'u syniadau eu hunain i'w gosod mewn manau eraill o amgylch yr ystafell ddosbarth.
- Dewiswch ddysgwyr i roi rhesymau dros eu dewisiadau, gan eu hannog i egluro sut y gallai'r pwynt a ddewiswyd ganddynt ynghylch mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wneud y byd yn fwy teg. Efallai yr hoffech eu hannog hefyd i ystyried a ydynt yn credu bod y syniad yn mynd i'r afael orau ag anghydraddoldeb yn y wlad, anghydraddoldeb rhwng gwledydd neu'r ddau.
- Unwaith y bydd sawl dysgwr ym mhob cornel o'r ystafell ddosbarth wedi cyfiawnhau eu dewisiadau, gofynnwch a oes unrhyw un wedi newid ei farn am y ffordd orau o wneud y byd yn lle mwy teg. Cofiwch ganiatáu i'r dysgwyr hyn symud corneli i ddangos hyn. Nid oes rhaid i ddysgwyr symud os nad ydynt wedi newid eu meddwl. Pan fydd pawb wedi penderfynu, dewiswch ddysgwyr i esbonio i'r dosbarth pam eu bod wedi dewis symud neu aros.
- Noder mai diben y gweithgaredd hwn yw sbarduno trafodaeth a dadl. Nid oes yna atebion cywir. Efallai yr hoffech gyfeirio at y *Nodiadau Cefndir i Athrawon* i gael rhagor o wybodaeth.

### Gweithgaredd 1.2 (20 munud)

*Olwyn werthuso*

*Noder: Mae'r olwyn werthuso wedi'i gadael yn wag yn fwriadol fel y gallwch fewnosod deg deilliant dysgu i adlewyrchu'r daith benodol y mae eich dysgwyr wedi'i dilyn.*

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r *Olwyn Werthuso* i fyfrio ar eu dysgu a'u dealltwriaeth am anghydraddoldeb. Dylai'r dysgwyr roi croes neu ddot ar bob llinell fewnol i ddangos pa mor dda y maent wedi deall y pwynt. Po agosaf y mae'r marc i'r tu allan i'r olwyn, po fwyaf hyderus y mae'r dysgwr yn teimlo am y datganiad. Po agosaf y mae'r marc i'r tu mewn i'r olwyn, y lleiaf hyderus yw'r dysgwr. Yna dylai'r dysgwyr uno eu marciau i greu octagon.
- Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu holwynion gwerthuso gyda phobl eraill. Trafodwch sut y maent yn teimlo ynghylch eu dysgu fel grŵp. Gallech annog y dysgwyr gyda'r cwestiynau canlynol:
  - o *Pa feysydd dysgu ydych chi'n fwyaf hyderus yn eu cylch?*
  - o *Pa feysydd dysgu ydych chi'n llai hyderus yn eu cylch?*
  - o *Beth yn eich barn chi yw'r peth pwysicaf rydych chi wedi'i ddysgu?*
  - o *Pa weithgareddau oedd fwyaf diddorol i chi a pham?*
  - o *Pa ddata oedd fwyaf diddorol i chi a pham?*
  - o *Beth hoffech ddysgu rhagor amdano?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr am syniadau o ran sut y gallent ddatblygu eu dysgu a symud mwy o'u marciau i'r tu allan i'r olwyn. Mae syniadau posibl yn cynnwys: paru dysgwyr mwy hyderus a llai hyderus ar gyfer addysgu cyfoedion, ymchwil annibynnol ac ailedrych ar rai o'r sesiynau *Mwy neu lai cyfartal?* Os oes amser ar ôl gallai'r dysgwyr gydweithio i ddatblygu rhai o'r syniadau hyn.

### Gweithgaredd 1.3 (30 munud neu fwy)

*Rhannu dysgu gyda phobl eraill*

- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut y gallent rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am dlodi ac anghydraddoldeb ag eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Efallai yr hoffai'r dysgwyr lunio poster, cyflwyno gwasanaeth, dysgu gwers i ddsbarth arall, gwneud eu sioe sleidiau neu ffilm eu hunain neu ysgrifennu blog neu erthygl ar gyfer gwefan yr ysgol.
- Eglurwch i'r dysgwyr y bydd y syniadau hyn yn wahanol o ran yr effaith y maent yn ei chael a pha mor hawdd y gellir eu gwneud. Mae effaith yn ymwneud â nifer y bobl a'r amrywiaeth o bobl y bydd y gweithgaredd yn eu cyrraedd, er enghraifft, pobl o wahanol sectorau o'r gymuned. Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni gweithgaredd fydd yn dylanwadu ar rwyddineb y gweithgaredd.
- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar a rhowch gopi i bob grŵp o daflen weithgareddau *Rhannu ein dysgu gyda phobl eraill*. Dylai'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i gofnodi eu syniadau ac yna eu graddio yn ôl eu rwyddineb a'u heffaith gymharol.
- Caniatewch amser i'r grwpiau rannu eu syniadau ag eraill. Mewn grwpiau, dylai'r dysgwyr ddefnyddio eu tabl *Rhannu ein dysgu gyda phobl eraill* i ddewis, cynllunio a chyflawni eu syniad 'gorau' ar gyfer rhannu eu dysgu. Anogwch y dysgwyr i feddwl am sut y gallent ddefnyddio ffeithluniau, tablau, siartiau a graffiau i ddangos a phwysleisio'r pwyntiau allweddol y maent am eu gwneud. Tynnwch sylw at y ffaith y bydd y taflenni cofnodi *Fy Nghaith Ddysgu* yn ddefnyddiol ar gyfer sefydlu eu gweithgareddau.

## Syniadau pellach


- Dysgwch fwy am ymgyrch *Even it up* Oxfam, mudiad byd-eang sy'n tyfu ac yn mynnu byd mwy teg a diwedd i anghydraddoldeb:  
[www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us/find-an-action/even-it-up](http://www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us/find-an-action/even-it-up)
- Rhowch gynnig ar weithgareddau gan *Get Global!*, canllaw i athrawon ar sut i hwyluso ac asesu dinasyddiaeth byd-eang weithredol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n cefnogi dysgwyr i symud o feddwl am faterion sy'n bwysig iddynt, i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu; myfyrio ar eu perfformiad ac asesu eu gwaith. Darllenwch ragor:  
[www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global](http://www.oxfam.org.uk/education/resources/get-global)
- Gallai dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn Lloegr sefydlu grŵp Llysgenhadon leuenctid Oxfam. Mae Llysgenhadon leuenctid yn cyfarfod yn eu hamser eu hunain (gyda chymorth athro) i ddysgu gyda'i gilydd am faterion byd-eang, gan ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i leisio eu barn ar yr un pryd. Bob tymor, mae Pad Lansio Gweithredu leuenctid Oxfam yn awgrymu gweithgareddau ar gyfer Llysgenhadon leuenctid megis trefnu noson ffilm a thrafodaeth, addysgu gan gymheiriaid mewn cynullïadau ac mewn gwersi, cwrdd ag ASau a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill, a chodi ymwybyddiaeth drwy wneud ffilmiau. Mae gweithgareddau'n cefnogi thema ymgyrch ddewisol fel gwell dŵr a glanweithdra, addysg i bawb, neu hawliau dynol i bobl yn ystod argyfyngau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i:  
[www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-oxfam-school-group/](http://www.oxfam.org.uk/education/get-involved/start-oxfam-school-group/)

## Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Olwyn werthuso



## Sut y gallwn wneud y byd yn lle mwy teg?

### **Sicrhau bod treth yn deg**

Rheolau treth sy'n sicrhau bod pawb – gan gynnwys pobl gyfoethog a chwmnïau amlwladol – yn talu eu cyfran deg.

### **Buddsoddi rhagor o arian mewn gwasanaethau cyhoeddus**

Buddsoddi'r biliynau sydd wedi'u colli yn sgil systemau treth anaddas – yn ogystal ag arian o ffynonellau eraill – mewn gofal lechyd, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau'r bobl fwyaf tlawd.

### **Sicrhau bod gwaith caled yn talu ar ei ganfed**

Darparu swyddi diogel gyda chyflogau teg ar gyfer menywod – y mae eu swyddi yn aml yn talu cyflogau is ac yn llai diogel – a dynion, gan roi'r cyfle iddynt adael y cylch tldi. Mae hefyd yn golygu sicrhau gwell bargeinion ar gyfer ffermwyr bach ac eraill sy'n goroesi drwy werthu eitemau y maent wedi'u cynhyrchu.

### **Ein syniadau ni**

**Rhannu ein dysgu â phobl eraill**

Syniad	<b>Faint o effaith y bydd yn ei chael?</b> 1 ←————→ 5 Effaith fach                      Effaith fawr	<b>Pa mor hawdd y bydd ei wneud?</b> 1 ←————→ 5 Hawdd                                      Anodd